FOOT IN THE DOOR | TROED YN Y DRWS

# URBAN CIRCLE

## CULT CYMRU




**Dyfodol creadigol gyda lle i bawb yn y gymuned rannu eu stori a datblygu gyrfa - dyna all fod yn waddol i raglen Ffilm Cymru, Troed yn y Drws Casnewydd.**

Mewn cydweithrediad â phartneriaid gan gynnwys Cyngor Casnewydd, Cynghrair Sgrin Cymru, Sgil Cymru, Cult Cymru/BECTU, Prifysgol De Cymru, Tai Pobl a Choleg Gwent, drwy raglen Troed yn y Drws mae Ffilm Cymru wedi gweithio gyda dros 800 o bobl yng Nghasnewydd i daflu goleuni ar yrfaoedd ym myd ffilm a theledu, datblygu sgiliau a chynnig cyfleoedd i bobl sydd â sgiliau trosglwyddadwy symud i'r sector sgrin.

Mae Urban Circle Casnewydd, elusen celfyddydau ac eiriolaeth ieuenctid yng Nghasnewydd, wedi bod yn bartner allweddol o ran cysylltu partneriaid cyflenwi â'r gymuned mewn ffordd ddibynadwy a dilys. Mae Urban Circle wedi bodoli fel sefydliad datblygu'r celfyddydau ar gyfer pobl ifanc greadigol yn y ddinas ers dros 15 mlynedd.

Mae Mohamad Miah, pennaeth y cyfryngau a chyfathrebu, wedi bod yn rhan o dîm Urban Circle ers dros ddeng mlynedd, ac wedi bod yn trefnu gweithdai a darparu hyfforddiant yn ystod partneriaeth y sefydliad gyda Troed yn y Drws.

Dywedodd Mohamad: **"Gwaith llawr gwlad yw llawer o'r hyn a wnawn yng Nghasnewydd, gan ddefnyddio'r celfyddydau fel ffordd o eiriol ar ran y gymuned ieuenctid. Roedd yn hanfodol I ni fod y bartneriaeth hon am fod yn helpu ein cymuned a meithrin perthnasoedd ystyrlon cryf er mwyn darparu mynediad at yrfaoedd creadigol."**

**"Mae Troed yn y Drws wedi rhoi cyfle i ni ddarparu hyfforddiant creadigol, gweithdai a datblygiad gyrfaoedd i'n cymuned, mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill y prosiect, na fyddai'r bobl ifanc hyn efallai yn gwybod eu bod ar gael iddynt o'r blaen."**

O ariannu Ysgol y Cyfryngau HUMANiTREE, mewn cydweithrediad â Cult Cymru / BECTU; detholiad o weithdai creadigol gan gynnwys creu byrddau stori, golygu fideo, animeiddio stop-symud a mwy, i arwain sesiynau ymarferol ar fynediad at gyfleoedd llawrydd ac ysgrifennu CV, mae Troed yn y Drws wedi galluogi Urban Circle i gynnal digwyddiadau a sesiynau hyfforddi wythnosol sy'n lledaenu ymwybyddiaeth o fynediad i yrfaoedd yn y sector sgrin i gymuned Casnewydd.

Dywedodd Mohamad: **"Mae'r prosiect hwn wedi rhoi cyfle i Urban Circle gwrdd ag asiantaethau o'r un anian dan arweiniad pobl sy'n rhannu ein gwerthoedd o ran cymuned ac ymddiriedaeth, ac ymarfer a deall y rhwystrau i fynediad sy'n bodoli o fewn cymunedau ymylol."**

Un sefydliad o'r fath yw Cult Cymru, prosiect dysgu sy'n cael ei redeg gan BECTU mewn partneriaeth ag Undeb y Cerddorion, Undeb yr Ysgrifenwyr ac Equity. Dywedodd Sian Gale, rheolwr sgiliau a datblygu Cult Cymru: **"Mae ein perthynas ag Urban Circle wedi ei hadeiladu ar werthoedd cyffredin sef gofalu am gymunedau a chaniatáu i bobl fod ar eu mwyaf creadigol a dilys mewn amgylchedd lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel."**

Gan weithio'n bennaf ar godi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a lleoliadau gwaith, arweiniodd Sian sesiwn ar weithio'n llawrydd i bobl greadigol gydag Urban Circle ar gyfer rhaglen Troed yn y Drws. **"Roedd cymaint o bobl ddim yn ymwybodol o'r undebau a'r gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw trwy gydol gyrfa lawrydd,"** meddai, **"ond roedd y gymuned eisiau deall a dysgu sut i oresgyn yr ofnau a'r amheuon oedd ganddyn nhw ynglŷn â bwrw ati ar eu pennau eu hunain, gan wneud rhywbeth maen nhw'n ei garu.**



**“Mae gweithio gyda Troed yn y Drws wedi profi, os ydych yn rhoi’r ddealltwriaeth a’r wybodaeth gywir i bobl, eich bod eisoes yn chwalu rhwystrau mawr y mae llawer yn eu hwynebu wrth fynd i mewn i’r diwydiannau creadigol hyn. Ein rôl ni yw agor y drws a grymuso pobl i deimlo’n gyfforddus i adrodd eu storïau, ac rwy’n teimlo ein bod wedi gosod sylfeini cadarn er mwyn datblygu yn y dyfodol.”**

**“Rydyn ni wedi bod wrth ein bodd yn gweithio yng Nghasnewydd a phrif lwyddiant prosiect Troed yn y Drws yw’r partneriaethau cyfoethog rydyn ni wedi’u meithrin, a’r ddealltwriaeth well sydd gennym nawr ar sut y gallwn ymgysylltu mewn ffordd real â chymunedau yng Nghasnewydd.**

**“Rydyn ni wedi dysgu llawer ac wedi bwydo hynny’n ôl i’r rhaglen heddiw. Ein huchelgais yw parhau â’r gwaith, a gobeithio bod hyn yn waddol hirhoedlog o ran sut rydym yn ymdrin â sgiliau’r sector sgrin.”**



**Faye Hannah**
Pennaeth Sgiliau a Hyfforddiant
Ffilm Cymru Wales

**www.footinthedoorwales.com**

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru
ffilm CYMRU WALES
NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD